


Cynlluniau Byw yn y Gymuned



....Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn ieithoedd ac/neu fformatau eraill ar eich cais.
Ffoniwch 0800 032 1099 i gael rhagor o fanylion.

Beth sydd yn y canllaw hwn?



Dylai'r canllaw hwn gynnwys yr holl wybodaeth yr ydych angen ei wybod am y cynllun byw yn y gymuned.

Os byddwch yn penderfynu eich bod eisiau lleoliad byw yn y gymuned, gobeithiwn y byddwch yn ei fwynhau, ond byddwn yn gwneud yn siŵr bod rhywun ar gael i chi siarad â nhw os ydych am newid unrhyw beth neu os nad ydych yn hapus yn eich lleoliad.

Beth yw byw yn y gymuned?

Cynllun wedi ei redeg gan Wasanaethau Cefnogaeth Gymunedol Sir Ddinbych ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ydy byw yn y gymuned. Bwriad y cynllun yw rhoi cefnogaeth i chi fyw yn annibynnol mewn lle diogel lle gallwch wneud yr holl bethau rydych yn eu mwynhau. Os ewch i fyw mewn prosiect byw yn y gymuned, gelwir hyn yn lleoliad.



Mae prosiectau byw yn y gymuned yn:

- ❖ Rhuthun
- ❖ Prestatyn
- ❖ Dinbych
- ❖ Rhuddlan
- ❖ Y Rhyl
- ❖ Henllan

Fel arfer mae'r rhain mewn llefydd lle bydd hi'n hawdd cyrraedd siopau lleol a llefydd eraill y gallech fod angen mynd, fel y meddyg neu'r deintydd.

Os byddwch yn penderfynu byw mewn prosiect byw yn y gymuned, gobeithiwn y byddwch yn cymryd rhan yn eich cymunedol leol.



Mae lle i hyd at 5 o denantiaid fyw ym mhob prosiect byw yn y gymuned. Mae gan y rhan fwyaf ohonyn nhw staff yno drwy gydol yr amser er mwyn helpu a chefnogi'r tenantiaid. Byddant yn dilyn beth sydd yn eich cynllun gofal, ac yn

dysgu sgiliau newydd i chi. Byddan nhw'n dweud wrth eu harweinydd tîm neu swyddog gwasanaeth cleient am unrhyw newidiadau neu broblemau gyda'ch lleoliad. Ble bynnag mae'n bosib, bydd swyddog prosiect sy'n siarad yr iaith yr ydych chi'n fwyaf cyfforddus ynddi yn rhan o'r tîm staff.

Sut mae lleoliadau byw yn y gymuned yn gweithio

Mae gan bobl gydag anabledau dysgu yr hawl i:



- gael bywyd arferol o fewn eu cymuned
- gael eu trin fel unigolyn
- Gael help a chefnogaeth er mwyn cyrraedd eu potensial.

Mae lleoliadau byw yn y gymuned yn cynnig:



- eich cartref eich hun, yn aml yn rhannu
- eich ystafell wely eich hun
- cefnogaeth gan staff i ddysgu sgiliau newydd, gwneud dewisiadau a byw'n annibynnol
- cyfleoedd i fod yn weithgar yn y gymuned leol
- Teleofal, sef amrywiaeth o offer a synwryddion a all eich helpu i fod yn ddiogel gartref os byddwch ei angen.

Byddwn yn eich helpu drwy sicrhau eich bod yn gallu:



- rhannu'r un llefydd a phobl eraill ar gyfer byw, gwaith, addysg, a gweithgareddau hamdden a chymdeithasol
- cael amrywiaeth eang o brofiadau ym mhob elfen o fywyd sy'n cynyddu'r cyfleoedd i chi wneud dewisiadau ystyrlon
- bod yn rhan o'ch cymuned leol

- cael parch gan bobl yn eich cymuned drwy gyflawni rolau cymdeithasol fel bod yn ddeiliad tŷ, yn ffrindiau, gweithiwr, myfyriwr.
- Bod yn ffrindiau da a chael perthnasau gyda phobl eraill.

Gwneud yn siŵr eich bod yn ddiogel

Mae risgiau yn rhan o fywyd pob dydd, ond weithiau mae'n rhaid i'n staff wneud asesiadau risg er mwyn gwneud yn sicr eich bod yn byw mewn lle diogel, ac nad ydych yn gwneud unrhyw beth peryg. Rhoddir copi o unrhyw asesiad risg ar ffeil. Rhaid i staff geisio darganfod ffyrdd i leihau'r risg o niwed i chi.

Beth allwch chi ei ddisgwyl o leoliadau byw yn y gymuned

Dyma beth allwch ei ddisgwyl o'ch lleoliad



- Byddwn yn dangos parch tuag atoch ac yn ymddwyn yn foneddigaidd
- Bydd gennych ddewisiadau am bob rhan o'ch bywyd.
- Bydd gennych gefnogaeth i fyw mor annibynnol â phosib.
- Bydd gennych gyfle i ddysgu sgiliau newydd fel y gallwch fod yn annibynnol.
- Byddwn yn rhoi gwybodaeth ichi am bethau fel gwaith, addysg, iechyd, eiriolaeth a chyllid.
- Byddwn yn parchu eich preifatrwydd.
- Cewch yr holl wybodaeth y byddwch ei angen am eich gwasanaethau.
- Gallwch ddweud eich barn a chwyno am unrhyw wasanaeth nad ydych yn hapus yn ei gylch.
- Cewch adolygiad unigolyn gyda ni bob blwyddyn er mwyn gweld os ydych yn hapus gyda'ch trefniadau byw, ac os oes unrhyw beth yr hoffech ei newid.



Byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod wedi cofrestru gyda doctor a deintydd lleol a gyda chiropodydd ac optegwr os oes arnoch chi angen un. Bydd staff yn eich helpu gyda hyn. Gall y **Tim Anableddau Cymhleth** hefyd eich rhoi mewn cysylltiad ag arbenigwyr os ydych eu hangen, fel therapyddion galwedigaethol, therapyddion iaith a llefaredd, seiciatryddion a seicolegwyr.

Os bydd eich anghenion yn newid tra rydych yn byw yn eich lleoliad, cynhelir adolygiad unigolyn gyda chi. Mae'n bosib y bydd eich cynllun gofal yn cael ei newid er mwyn helpu i gwrdd eich anghenion. Os bydd arnoch angen help gan arbenigwr, byddwn yn eich cynorthwyo i drefnu hyn.

Trefniadau bob dydd



- Gallwch ddod ag unrhyw beth o'ch pethau eich hun gyda chi i'r lleoliad. Fel arfer bydd y teledu'n cael ei gadw yn yr ystafell fyw, i gael ei rannu gan y tenantiaid. Gallwch brynu teledu ar gyfer eich ystafell eich hun os hoffech chi.
- Os ydych chi eisiau ysmegu, dylech geisio gwneud hyn y tu allan.
- Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffôn sy'n cael ei rannu yn eich lleoliad . Byddwch yn rhannu costau defnyddio'r ffôn.
- Os oes gennych anifeiliaid anwes, gallwch fynd â nhw efo chi i'r lleoliad os yw hynny'n iawn gan y tenantiaid eraill, a bod neb ag alergedd iddynt. Byddem yn cynnal asesiad risg er mwyn gwneud yn siŵr bod hynny yn ddiogel i bawb.
- Byddem hefyd yn holi i chi gymryd rhan mewn cynllunio, siopa a pharatoi eich prydau bwyd. Gobeithiwn y bydd gennych ddietau iach, ac fe wnawn ni eich helpu i drefnu unrhyw ddietau arbennig sydd gennych.
- Rydym yn gobeithio y byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol. Byddwch yn gallu defnyddio'r cyfleusterau lleol fel canolfannau hamdden. Byddwn yn gofyn i chi beth ydych chi'n fwynhau ei wneud, a byddwn yn



gwneud ein gorau i sicrhau eich bod yn cael gwneud y pethau ydych chi'n ei fwynhau.

Sut mae byw yn y gymuned yn cael ei reoli



- Y person cofrestredig cyfrifol am bob un o brosiectau byw yn y gymuned Sir Ddinbych yw Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol.
- Mae prosiectau byw yn y gymuned yn rhan o'r Gwasanaethau Cefnogaeth Gymunedol, sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol ar gyfer oedolion mewn gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae'r rheolwr gwasanaeth ar gyfer Anableddau Cymhleth a'r rheolwr tîm ar gyfer gwasanaethau darparu i bobl gydag anableddau dysgu yn gwneud yn siŵr bod y prosiectau'n cael eu rhedeg yn dda.
- Mae arweinyddion tîm a swyddogion gwasanaeth cleientiaid hefyd sy'n rheoli'r tai ac yn goruchwyllo'r gweithwyr prosiect yn uniongyrchol.
- Cysylltir y prosiectau a gwasanaeth argyfwng tu allan i oriau fin nos ac ar y penwythnosau.

Beth ddylwn i ei wneud os hoffwn fyw mewn Prosiect Byw yn y Gymuned?

Os hoffech fyw mewn prosiect byw yn y gymuned, bydd angen atgyfeiriad i'r **Tîm Anableddau Cymhleth** arnoch. Bydd gweithiwr cymdeithasol a nyrs gymunedol yn ymweld â chi er mwyn cynnal asesiad. Os byddant, wedi siarad am bopeth gyda chi, yn penderfynu y byddai byw yn y gymuned yn addas i chi, bydd eich enw yn cael ei roi ar restr ar gyfer lleoliad byw yn y gymuned. Unwaith bydd lleoliad wedi ei ddarganfod, bydd eich gweithiwr cymdeithasol, arweinydd tîm neu swyddog gwasanaeth cleient yn gweithio gyda chi i greu cynllun gofal newydd er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn hapus gyda'r holl drefniadau ynghylch eich lleoliad.



Os hoffech wybod mwy am brosiect byw yn y gymuned, neu os nad ydych yn deall rhywbeth yn y canllaw hwn, cysylltwch â'r **Tîm Pwynt Mynediad Sengl (SPoA)**


Ffôn: 0300 456 1000

E-bost: spoa@denbighshire.gov.uk



Neu galwch heibio neu ysgrifennwch atynt:

SPoA
64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
LL18 3HN



Sut y telir am eich lleoliad

Cynhelir asesiad cyn i'ch lleoliad gychwyn i weld faint y dylech ei dalu am eich lleoliad. Byddwch yn cael bil bob mis ar gyfer y gwasanaethau

rydych yn eu derbyn, a bydd staff y prosiect yn eich cynorthwyo i dalu'r biliau hynny.

Sylwadau a Chanmoliaethau

Os hoffech wneud sylwad, gwyno, neu ganmol y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu gallwch gysylltu â'r **Swyddog Cwynion**.



Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid

Tŷ Russell
Ffordd Churton
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 3DP

Rhadffôn: 0800 032 1099



Byddant yn gwranddo ar eich sylwadau neu'ch cwynion, ac yn cymryd popeth byddwch chi'n ei ddweud o ddifrif. Byddant wedyn yn ceisio'ch helpu a gwella pethau. Gallant hefyd roi taflen i chi i ddweud mwy wrthyhch am sut i wneud sylwadau neu gwynion.